y Dinesydd

HYDREF 1993 — PAPUR BRO DINAS CAERDYDD — RHIF 197

# RHIENI'N CODI'R GANSEN YN ERBYN DE MORGANNWG



Y noson pan syfrdanwyd y de-ddwyrain gan adroddiad y Byd ar Bedwar am addysg Gymraeg yn Ysgol Rhydfelen, daeth dros 100 o rieni Caerdydd ynghyd i fynegi pryder am ddyfodol addysg Gymraeg yng Nghaerdydd.

Trefnwyd y cyfarfod yn Ysgol Glantaf Isaf gan gangen De Morgannwg Rhieni dros Addysg Gymraeg (Rhag) i geisio llunio canllawiau pendant i ddylanwadu ar Awdurdod Addysg y sir.

Er gwaetha sefydlu ysgol Gymraeg newydd – ysgol sydd hyd yma heb enw – mewn cytiau dros dro ar hen safle ysgol Howardian yn y Rhâth ym mis Medi, mae Rhag yn bryderus iawn nad oes gan y sir gynlluniau i edrych ar y twf sydd mewn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro. Yn ôl Michael Jones, cyn-gadeirydd Rhag sydd bellach yn is-gadeirydd cangen De Morgannwg, y cyfan mae'r awdurdod addysg yn ei wneud yw "ateb y galw presennol heb gynllunio i'r dyfodol o gwbwl".

Mewn adroddiad i'r cyfarfod, dywedodd Michael Jones bod 308 o blant wedi dechrau addysg gynradd Gymraeg yn Ne Morgannwg y tymor hwn, ac nad oes darpariaeth addas yn cael ei wneud iddynt o ran cyfleusterau adeiladau. Mae dros hanner disgyblion ysgol Penarth â'u dosbarthiadau mewn cytiau symudol, a cheir hanesion tebyg ym mhob un o'r ysgolion Cymraeg eraill.

Pwysleisiwyd bod angen adeiladau parhaol ar gyfer yr ysgolion hyn, ac y dylai De Morgannwg fabwysiadu yr un polisi cadarnhaol â Morgannwg Ganol, lle mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu chwech ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd Gymraeg newydd. Mynegwyd pryder mawr am ddyfodol addysg uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd wrth i'r ffigurau ddangos bod Ysgol Glantaf eisoes wedi chwyddo'n ormodol. Dywedodd Michael Jones y bydd y mwyafrif o'r 308 o blant gychwynnodd eu haddysg eleni yn cyrraedd oedran ysgol uwchradd erbyn y flwyddyn 2000, ac nad oes gan y sir gynlluniau i ystyried ail ysgol uwchradd cyn 1997-98.

Penderfynodd y cyfarfod wasgu ar yr awdurdod addysg i brysuro'u cynlluniau i agor ail ysgol uwchradd Gymraeg erbyn 1995, a honno i wasanaethu'r Fro. Yn ychwanegol at hynny byddai angen trydedd ysgol uwchradd erbyn troad y ganrif yng Nghaerdydd. Mynegwyd pryder hefyd nad oedd rhieni plant bach mewn ysgolion cynradd yn ymwybodol o'r problemau sy'n wynebu addysg uwchradd o fewn oes ysgol eu plant, ac anogwyd cymdeithasau rhieni yr ysgolion cynradd i gydweithio fwy er mwyn ystyried oblygiadau addysg Gymraeg yn ehangach.

## Swydd Rhan Amser
## Clerc Anfonebau

8.45 i 12.45 ddydd Llun i ddydd Gwener. £4,662 y flwyddyn am wythnos o 20 awr. Dylai ymgeiswyr feddu ar sgiliau cyfathrebu, rhifo, a gweithio o dan bwysau. Bydd profiad o gyfrifon ar gyfrifiadur o fantais ond nid yn angenrheidiol. Mae'r Brifysgol yn gyflogwr cyfle cyfartal.

Manylion pellach a ffurflenni cais (dyddiad cau 22 Hydref) oddi wrth:
Gwasg Prifysgol Cymru, 6 Stryd Gwennyth,
Cathays, Caerdydd, CF2 4YD. Ffôn: 231919 (24 awr).

---

# Huw Roberts BSc, ACMA

*Cyfrifydd*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, buddsoddiadau, pensiynau, yswiriant personol, a chynlluniau cynilo ar gyfer addysg prifysgol*

**Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hill,**
**Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA**
**Ffôn Llantrisant (0443) 224182**

---

Yr anrheg perffaith!

# ALMANAC A DYDDIADUR CAERDYDD 1994

50 o luniau newydd - erthyglau yn Gymraeg a Saesneg
Adran Dyddiadur Dwyieithog -
128 tudalen maint-A5



**Y pris yw £9.50, ac mae ar gael ym mhrif siopau llyfrau y ddinas.**

---

# y Dinesydd

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH CATRIN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

## 0222 598243

***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):*** tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7
***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15

Ffigur nifer y darllenwyr yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg y Dinesydd, Mai 1991

---

# CAERDYDD

## ADRAN Y GYMRAEG

Darlith Goffa G.J. Williams

**10 TACHWEDD 1993 am 6 o'r gloch**

## "MEWN CARCHAR TYWYLL DU"

Darlithydd
Yr Athro Gwyn Thomas

**Ystafell X0.04, Adeilad y Dyniaethau**
**(Canolfan Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol)**
**Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd**

Estynnir Croeso Cynnes i'r Cyhoedd

**Ymholiadau: (0222) 874843**

---

**Cymorth Cristnogol**

Eglwysi Cymraeg Caerdydd

# BORE COFFI A FFAIR

DYDD SADWRN, 6ed TACHWEDD 1993

YN FESTRI CAPEL EBENEZER

Gwahoddir Cyfraniadau at y Stondinau

PLANHIGION, TEISENNAU, LLYFRAU, LLESTRI, ELIFFANT GWYN.

BYDD STONDIN TRAIDCRAFT YNO HEFYD

Tocyn 50c **9.30~12.30**

**Cymorth Cristnogol**

# LANSIO APÊL NADOLIG I GADW'R DINESYDD RHAG GAEAF LLWM

Does dim byd yn sicrach na bod y Dinesydd yn wynebu trafferthion ariannol yn gyson. Felly ddaw hi ddim yn sioc i neb ddarllen bod cyfrif banc y Dinesydd yn wag.

Nid yw'r Swyddfa Gymreig wedi talu eu grant blynyddol am 1992/93 i ni eto, a'r unig incwm sydd gan y Dinesydd ar ôl yw arian hysbysebion a thanysgrifiadau Dinesydd 2000. Ac mae'r arian hwnnw bron iawn i gyd wedi ei wario ar glirio'n dyledion.

Mae'r dyddiau da pan oedd y Dinesydd yn ymddangos o fis i fis yn rhad ac am ddim yn brysur ddirwyn i ben. Os na fydd cynnydd sydyn yn ein cynilion, mi fyddwn ni'n methu â thalu ein costau cyhoeddi, sydd yn £1000 (ie, mil o bunnau) bob mis.

Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn ysgrifennu yn unigol at cynifer o Gymry Caerdydd â sydd bosib yn gofyn i chi, ein darllenwyr, i'n helpu. Byddwn yn gofyn i chi gyfrannu £15 y flwyddyn (neu cymaint ag y gallwch) i goffrau Apêl Nadolig Dinesydd 2000 i gadw'r cylchgrawn ar ei draed. Fe allwch chi arbed cost y stamp i ni ar unwaith drwy lenwi'r ffurflen danysgrifio sydd yn y rhifyn ar dudalen 11, a'i ddychwelyd atom yn ddi-dâl.

Mae'r ewyllys da tuag at y Dinesydd yn ffrwtian yn braf yng Nghaerdydd. Angen i'r ewyllys da hwnnw i ferwi sydd nawr. Dowch o 'na! Dwylo mewn i'ch poced! Rhowch eich help ymarferol i ni, er mwyn sicrhau nad y Nadolig hwn fydd Nadolig olaf y cylchgrawn.

Gobeithio'n fawr y gwelwch chi'ch ffordd yn glir i helpu arbed y Dinesydd. Ar ddiwedd y dydd, diwedd y gân yw'r geiniog.

# METHIANT ADDYSG CYMRY CAERDYDD?

Mewn adroddiad arbennig ar raglen S4C y Byd ar Bedwar yn ddiweddar, datgelwyd canlyniadau arolwg sy'n awgrymu nad yw Ysgol Gyfun Rhydfelen ym Mhontypridd, ysgol uwchradd cannoedd o Gymry Caerdydd tan 1981, wedi llwyddo yn ei nod o Gymreigio'r Cymoedd.

Aeth y rhaglen, a ddarlledwyd ar nos Lun 11 Hydref, ar drywydd pob un o'r 192 o ddisgyblion oedd yn y pumed dosbarth ym 1983 i weld faint ohonynt erbyn heddiw oedd yn defnyddio'r Gymraeg. Daethpwyd o hyd i 166 ohonynt, gan gynnwys un oedd yn byw yn Sbaen.

Dangosodd yr arolwg nad yw 60 y cant o'r disgyblion hynny yn siarad Cymraeg yn aml neu o gwbwl, bod traean yn defnyddio'r iaith yn achlysurol, ac mai 8 y cant yn unig sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gyson neu drwy'r amser.

Trefnwyd yr arolwg gan Gareth Price, darlithydd ym Mhrifysgol Morgannwg ym Mhontypridd, a baratodd holiadur 28 cwestiwn am yr ysgol a'r effaith a gafodd ar y disgyblion. Fe'u holwyd am ba mor aml y defnyddiwyd y Gymraeg ganddynt yn yr ysgol, am ba mor aml ddefnyddiwyd yr iaith ganddynt heddiw, ac am eu barn ar werth addysg Gymraeg yn gyffredinol.




Yn sgîl ein hadroddiad am nifer y Cymry Cymraeg yng Nghaerdydd y mis diwethaf, dyma gyhoeddi map yn dangos canran y Cymry Cymraeg o gwmpas y ddinas. Lle rych chi?!

## NODWEDD

### GOHIRIO AGOR Y CLWB



Mae cynlluniau Clwb Ifor Bach i ail-agor y clwb ar ei newydd wedd wedi ei ohirio tan ddechrau mis Tachwedd, oherwydd anawsterau ynglŷn â rheolau tân.

Dros yr haf diberfeddwyd pob un ond llawr gwaelod yr adeilad yn Stryd Womanby er mwyn creu cyfleusterau newydd. Yn ôl John Lloyd, llywydd y Clwb, "Roedd yr hen reolau tân yn iawn ar gyfer yr hen adeilad, ond unwaith ein bod ni'n dechrau newid pethau mae'r awdurdodau yn mynnu ein bod yn cadw at reolau newydd".

Roedd y Clwb wedi gobeithio gallu cadw'u hen ddihangfa dân ar y cychwyn, a'i adnewyddu pan fyddai cyllid yn caniatau, ond mae hwn bellach yn un o'r adnoddau mae'r awdurdodau tân yn mynnu eu bod yn cael eu newid. Ymhlith y newidiadau eraill sy'n rhaid eu gwneud mae newid drws y clwb, adeiladu portsh newydd sbon, a grisiau pwrpasol.

Oherwydd y gohirio cyn agor, mae'r Clwb wedi gorfod canslo nifer helaeth o nosweithiau adloniant gan mai'r bar isaf yw'r unig ran o'r Clwb sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'r gwaith ychwanegol hefyd wedi golygu bod dyledion y Clwb wedi cynyddu, a dealla'r Dinesydd bod rheolwr banc y Clwb wedi galw heibio i sicrhau bod y gwaith yn mynd yn ei flaen.

### COLLED I GAERDYDD

Bu farw T. Raymond Edwards, un o gymwynaswyr mawr Cymru a'r DINESYDD. Bydd teyrnged iddo yn rhifyn nesaf.

### Y DINESYDD TACHWEDD

Dylid anfon adroddiadau, erthyglau a newyddion at Ysgrifennydd y Pwyllgor Golygyddol, Catrin Lloyd Rowlands, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE erbyn Tachwedd 1af.

Dyluniwyd gan Androulla Cleovoulou 0633 220985 • Argraffwyd yng Nghaerdydd gan Hartleys Printing Co. 0222 460636

NEWYDDION

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

- Cafwyd noson ddiddorol, llawn hiwmor, i ddechrau ail flwyddyn ein Cymdeithas Gymraeg ar Fedi 23. Bu Felmai Griffiths, yr Is-Gadeirydd, yn olrhain ei hanes o'i phlentyndod yn Llandysul hyd at ei phrofiadau fel athrawes Cymraeg fel ail iaith yng Nghaerdydd, yn ei dull dihafal ei hun.
- Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar nos Iau, Hydref 21 yn Llyfrgell Rhiwbeina am 7.30 o'r gloch. Byddwn yn croesawu Mrs Mary Wiliam i sôn am 'Hen Bethau'.
- Ar ddydd Iau, Tachwedd 25, byddwn yn ymweld â Chymdeithas Ddrama'r Crwys yn Heol Richmond am 7.30 o'r gloch i weld eu perfformiad o **Ni a Nhw** - cyfieithiad o gomedi gan Alan Ayckbourne. Gofynnir i bawb sydd am ymuno â ni i gysylltu ag unrhyw un o'r pwyllgor. Trefnir cludiant i'r rhai sydd ei angen.
- Braf oedd clywed am lwyddiant disglair Alun Guy yn America lle bu'n arwain Cymanfa Ganu o 4,000 o leisiau yn Wilksbarrie yn ddiweddar. Byddwn ninnau hefyd yn cael y fraint o'n harwain ganddo mewn Cymanfa Ganu ar nos Sul, Chwefror 27, 1994 am 8 o'r gloch yng Nghapel Beulah ar sgwâr Rhiwbeina. Gymry Caerdydd a'r gylch - gwnewch nodyn o'r dyddiad a dewch i'n cefnogi.
- Llongyfarchiadau i Gethin Rhys a'i wraig Fiona ar enedigaeth eu merch, Elinor Mair. Mae Gethin, sydd bellach yn weinidog yn Aberhonddu, yn fab i John Rhys, Rhiwbeina, cyn-Gyfarwyddwr Gwasg Prifysgol Cymru.
- Llongyfarchiadau i Emyr a Mair Afan ar enedigaeth Osian, brawd i Alaw a Naomi.
- Llongyfarchiadau i Elliw ac Oswyn Richards, Heol y Bryn, ar enedigaeth Manon Eleri, chwaer fach annwyl iawn i Lois ac Elgan.
- Llongyfarchiadau i Gareth a Nest Evans ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Owain.

**Os am unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r Gymdeithas ffoniwch Caerdydd 623945 neu 620487.**

## LLANDAF

- Llongyfarchiadau i Sian a Rhys Powys ar enedigaeth mab bychan. Mae Daniel Jâms wedi cyrraedd yn ddiogel - a'r ddau deulu yn profi mai gwir y gair 'heb fagu'n llwyr heb fagu'r ŵyr'.
- Fis diwetha gwylanod oedd cwmpeini trigolion Llandaf. Erbyn hyn y mae aderyn arall yn yr ardal. Y mae sŵn gwdihŵ yn torri ar ddistawrwydd y gadeirlan bob nos. Sŵn digon gwynfanus - ond dyna ni, pawb a'i iaith!
- Yn ddiweddar sefydlwyd Deon newydd yn Llandaf. Y mae John Rogers a'r teulu wedi cartrefu ar y Llain, a deallwn bod y Deon newydd yn Gymro Cymraeg. Croeso i'n plith.

# CENEDL YN DATHLU GYDA GWILYM



Pleser mawr i ni i gyd oedd gweld y rhaglen **Penblwydd Hapus** ar S4C yn dathlu pen-blwydd Gwilym Roberts, ac yn dangos cymaint o'i amrywiol weithgareddau a'i orchestion. Iddo ef y mae'r diolch yn bennaf am lwyddiant ein blwyddyn gyntaf fel cymdeithas. Diolch, Gwilym, a phob llwyddiant i ti gyda'r gwaith yn ystod dy ail flwyddyn ym Mhatagonia. Mae bwlch mawr yma hebddo ti!

# O ARDALOEDD ERAILL Y BRIFDDINAS

- Bu farw John Gareth Davies, Penarth. Cydymdeimlwn â'i ferch, Mrs Elizabeth ap Robert, ei gŵr, y Barnwr Hywel ap Robert, a'r teulu oll.
- Bu farw'r Parch Ddr Gwyn Walters, athro yng Ngholeg Diwinyddol Gordon-Conwell, Boston. Bu ar un cyfnod yn weinidog Eglwys Bresbyteraidd Memorial Hall, Caerdydd. Er iddo dreulio bron 40 mlynedd yn America, cadwodd mewn cysylltiad agos a chyson â Chymru ac â'r bywyd Cymraeg yn America.
- Cydymdeimlwn â Miss Rhian Williams, Glan-llyn, a'r Parch Gwynn Williams, gweinidog yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, ar golli eu mam.
- Llongyfarchiadau i Owain George, Y Rhâth, ar ei ddyweddiad ag Angharad Ioan, Llanfechell, Ynys Môn.
- Llongyfarchiadau i Arfon ac Angela Haines Davies ar enedigaeth eu merch, Catrin.
- Diwedd mis Medi, fel llawer dosbarth nos arall, fe ail-gychwynodd y Clwb Cadw'n Heini i Ddynion yn Ysgol Glantaf. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ers pan y'i sefydlwyd yn Ysgol Radur gan Lloyd Evans, ac mae'n dal mor llewyrchus ag erioed. Yr athro poblogaidd presennol yw Gwyn Morris, gynt o Ysgol Y Cymer a sydd ar hyn o bryd yn dysgu yng Nghwmbran. Os hoffech ymuno â'r clwb, sy'n cwrdd bob nos Lun am 7.30 o'r gloch, cysylltwch â'r trefnydd diwyd, Wyn Davies, yr Eglwys Newydd. Ei rif ffôn yw 611587.
- Cyn bo hir bydd Zac Davies o'r Eglwys Newydd yn symud i Wynedd. Mae Zac, sydd ar hyn o bryd yn athro Ymgynghorol Uwchradd Cymraeg yng Ngwent, wedi'i benodi'n Ymgynghorydd/Arolygwr y Gymraeg yng Ngwynedd. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.
- Dechreuwyd tymor newydd Cylch Cinio'r Barri a'r Fro gyda darlith gan un o'r aelodau cyntaf, Euryn Ogwen, a difyr dros ben oedd gwrando ar ei hanesion o'r Gymanfa Ganu yng Ngogledd America yn ystod yr haf. Llywydd y Cylch eleni yw'r Dr Colin Morgan o'r Brifysgol Agored, ac fel arfer, mae Mr Islwyn Jones, ysgrifennydd y Cylch, wedi trefnu rhaglen hynod o ddiddorol. Y siaradwr ym mis Hydref yw'r Gwir Barchedig Cledan Mears, ac mae Noson y Gwragedd ar y nos Wener olaf yn Nhachwedd. Yng Ngwesty Mount Sorrel, Y Barri, y mae'r Cylch yn cyfarfod, a hynny ar y nos Fercher olaf ymhob mis (ag eithrio mis Tachwedd). Rhif ffôn yr ysgrifennydd i ddarpar aelodau newydd yw Caerdydd 594533. Mae'r DINESYDD yn cydnabod yn ddiolchgar gyfraniadau hael y Cylch bob blwyddyn.
- Dymunwn yn dda i'r llenor, y Dr Glyn Jones, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty'r Mynydd Bychan.
- Ar Hydref 28 bydd Cymdeithas Golff y Ddinas yn cystadlu am dlws Celtic Asset Management ar Gwrs Golff Maesteg. Ceir diwrnod o olff - Sgarmes Tecsas yn y bore, cinio ysgafn, Stableford yn y prynhawn a chinio gyda'r nos am £20 yn unig, ac am chwarae yn y prynhawn a chinio gyda'r nos - £17.50. Am fanylion pellach cysyllter â Dafydd Hampson- Jones ar Caerdydd 394021.
- Bob dydd Sul bydd Offeren yn Gymraeg yn Eglwys Gatholig Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhelir Ysgol Sul am 4.15 y p'nawn gydag offeren i ddilyn am 4.45. Ceir manylion pellach oddi wrth Carys Whelan, Y Bontfaen, rhif ffôn (0446) 772888.
- Nos Fawrth, Hydref 5, ymwelodd aelodau Merched y Wawr Caerdydd a Merched y Wawr Y Barri. Cafwyd ganddynt raglen oedd yn dangos paratoad a chyflwyniad arbennig o raenus.

*(Parhad ar dud 6)*

Tudalen sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r cyffiniau

# CYFRANIAD CYMRU I WLAD UNIGRYW

Bedair blynedd yn ôl efeilliwyd Eglwys Annibynwyr Minny Street ag Eglwys y Tranovato yn ninas Toamasina, ar arfordir dwyreiniol Madagascar. Mae ond ychydig filltiroedd o'r fan lle glaniodd y ddau genhadwr ifanc, David Jones a Tomos Bevan, o Neuaddlwyd (ger Aberaeron), ar 18 Awst 1818. Daeth ei gweinidog a'i briod atom am rai wythnosau cofiadwy yn hydref 1990.

Yn ateb i'w gwahoddiad inni gyfranogi â nhw yn nathlu 175 mlynedd y digwyddiad hanesyddol hwnnw, gofynnodd fy ngweinidog, y Parchedig Ieuan Davies, a'm cyd-aelodau yn Minny Street imi eu cynrychioli yn y dathlu; a derbyniais hefyd wahoddiad aelodau Undeb yr Annibynwyr i'w cynrychioli hwythau yr un pryd. Daeth fy ngwraig Rhiannon gyda mi, a dyma brofi gyda'n gilydd ramant rhyfeddol ac arwrol hanes cyfraniad Cymru i wlad unigryw yr anghofiodd y byd amdani.

Mae enw Cymru ac enwau'r cenhadon cynnar yn perarogli yno: iddyn nhw mae dyled Madagascar am ysgrifennu a sefydlogi'r iaith, ac i'r nifer fechan yma o Gymry yn anad neb y mae eu dyled am iddyn nhw ddod yn Gristnogion. Anodd inni, o'n safbwynt ni ar ddiwedd y ganrif hon yn y Gymru gyfoes, amgyffred arwyddocâd hyn oll i bobl Madagascar.

Roedd yr Eglwysi Anghydffurfiol - Annibynwyr, Presbyteriaid ac Eglwys y Cyfeillion - wedi ymuno i greu Undeb yr FJKM (Eglwys Iesu Grist ym Madagascar ) 25 mlynedd yn ôl, ac felly bu dathlu'r achlysur pwysig hwnnw hefyd.

Mae ymweld â Neuaddlwyd i aelodau eglwysi'r FJKM mor werthfawr ag ydoedd pererindod i Dŷ Ddewi i'r Eglwys Geltaidd yn y canrifoedd cynnar. Cawsom gyfarfod â llawer a oedd wedi bod yno, gan gynnwys myfyriwr ifanc (un o 500 o efrydwyr, meddai, sy'n paratoi at y weinidogaeth yn y brifddinas, Antananarivo) a Gweinidog Materion Tramor y llywodraeth.

Roedd y dathlu ar fore Mercher, 18 Awst yn achlysur o bwysigrwydd mawr iawn i bawb drwy'r wlad. Bu'r ffaith mai yn Eglwys y Tranovato, Toamasina, a efeilliwyd a ni yn Eglwys Minny Street, y cynhaliwyd y cyfarfod mawr hwnnw, yn fater o foddhad cyffrous inni'n dau; a chefais innau'r fraint o gyfarch y gynulleidfa ar ran Minny Street, Undeb yr Annibynwyr a Chymru gyfan.

Daeth rhai o brif arweinwyr y wlad i'r oedfa ddathlu, gan gynnwys Arlywydd newydd y wlad, a roes anerchiad i'r gynulleidfa; ei Weinidog Materion Tramor a'i briod; a Mr Peter Smith, Llysgennad Prydain ym Madagascar, a'i briod - yntau yn ymhyfrydu yn ei wreiddiau yng Ngwynedd. Teledwyd awr o adroddiad am y cyfarfod.

Hefyd ymhlith y gweinidogion a gymerodd ran yr oedd prifathrawon Ysgol David Jones ac Ysgol Tomos Bevan yn ninas Toamasina. Nid y cenhadon a sefydlodd yr ysgolion hyn - bu farw Tomos Bevan ychydig wythnosau wedi glanio, a'i wraig a'u plentyn hefyd, a chollodd David Jones ei wraig a'i blentyn yntau yr un adeg. Fe godwyd y ddwy ysgol flynyddoedd yn ôl fel teyrnged i'r ddau Gymro ifanc dewr a ddaeth i'r ynys pan oedd penllanw crefydd yng Nghymru, a'r Ynys Fawr yn llwyr baganaidd.

Cawsom gyfle i ymweld â'r ddwy ysgol, sydd yn arddangos enwau'r ddau genhadwr i'r byd eu gweld. Ond mae'r ddwy mewn cyflwr truenus - rhwng effeithiau'r stormydd sy'n taro'n greulon ar y rhan hon o'r wlad ar ddechrau pob blwyddyn, a chyflwr economaidd truenus yr ynys wedi cyfnod erchyll y Comiwnyddion.

Rydym wedi agor cronfa i helpu'r ddwy ysgol i gael offer dysgu: hen deipiaduron, cyfarpar Roneo, llyfrau dosbarth o bob math, a deunydd ysgrifennu. Os hoffai rhai o garedigion Y DINESYDD gyfrannu at un o'r achosion teilyngaf a welsom erioed, a chanddo gwlwm mor dynn â Chymru - naill ai yn ariannol neu â deunydd dysgu - byddem yn ddiolchgar dros ben. Ffoniwch ni ar Gaerdydd 797721 neu 494310.

HAVARD GREGORY

## NEWID AELWYD


Am y trydydd thro yn ei hanes y mae eglwys Gristnogol Gymraeg ieuengaf Caerdydd wedi newid ei chartref.

Pan ddechreuodd yr Eglwys Efyngylaidd Gymraeg ym 1979, cynhaliwyd yr oedfaon yn Nhŷ'r Cymry yn Heol Gordon, Y Rhâth. Ond gyda'r cynnydd cyson ym maint y gynulleidfa, dechreuodd yr ystafell yn Nhŷ'r Cymry fynd braidd yn gyfyng ac ym 1986 llwyddwyd i gael defnydd adeilad mwy o faint yn Crofts Street yn ardal Plasnewydd.

Ond oherwydd y cynnydd pellach ym maint y gynulleidfa, ac yn enwedig y cynnydd yn nifer y plant, y mae'r eglwys wedi symud unwaith yn rhagor i adeilad mwy o faint eto.

Ei chartref newydd - o ddydd Sul, 10 Hydref ymlaen - yw Canolfan yr Urdd yn Heol Conwy, Treganna. Cynhelir oedfa'r bore am 10 o'r gloch ac oedfa'r hwyr am 6 o'r gloch gydag Ysgol Sul i blant ac oedolion am 11.30 o'r gloch y bore. Y gweinidog yw'r Parchedig Gwynn Williams, 23 Kelvin Road, Parc y Rhâth, rhif ffôn 490687.

NODWEDD



## GWARCHOD EIN HENWAU

Ychydig fisoedd yn ôl apeliodd Paul Flynn, yr aelod seneddol dros Orllewin Casnewydd (a brodor o Gaerdydd) ar i'r llywodraeth fynd ati yr un mor frwd i warchod enwau lleoedd Cymraeg ag y maent yn mynd ati i warchod henebion. Fel enghreifftiau o'r llygru a all ddigwydd, nododd fod 'Bro Dawel' yng Ngaerllion wedi troi yn 'Broadwell' a 'Waun Twyn' yn Aber-big wedi mynd yn 'Warm Turn'.

Ceir cwyno cyson, wedyn, fod enwau estron yn cael eu gosod ar ddatblygiadau newydd yn lle enwau Cymraeg addas. Bu cwyno'n ddiweddar, er enghraifft, fod stad o dai ym Mhort Talbot wedi'i bedyddio'n Island Mews', a bod 'The Pines Centre' wedi'i roi yn enw ar stad fasnachol ger Pen-y-bont ar Ogwr. Ac yn sicr, briw i lygad Cymro yw gweld tai newydd yn codi yn hen siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi gyda enwau 'River Mead' a 'Brambly Hedge' arnynt.

Mae'n dda gweld fod Cymry Caerdydd wedi mynd ati dros y blynyddoedd i Gymreigio rhai o'r enwau o'n cwmpas, weithiau trwy atgyfodi hen enw Cymraeg (megis 'Ystum Taf' am 'Llandaff North' neu 'Croes Cwrlwys' am 'Culverhouse Cross'), a thro arall trwy gyfieithu o'r Saesneg (megis troi 'Lakeside' yn 'Glan-llyn' a 'Riverside' yn 'Glanyrafon'). Ond nid bob tro ychwaith. Er enghraifft, nid yw'r hen enw am 'Victoria Park', sef 'Cimdda Elái', ar ddefnydd hyd y gwn i.

Rhaid bod yn ofalus hefyd. Weithiau y mae rhai Cymry dyfod, yn eu brwdfrydedd dros Gymreigio'r enwau o'u cwmpas, wedi cyfieithu enw Saesneg i'r Gymraeg heb sylweddoli fod enw Cymraeg ar gael eisoes. Gwelais yn ddiweddar, er enghraifft, y cyfieithiad 'Bryn-drain' ar gyfer 'Thornhill' yn hytrach na'r enw Cymraeg brodorol 'Draenen Pen-graig'. Ac er mai 'Rhymni' a geir ar arwyddion ffyrdd, hyd yn oed, fel yr enw Cymraeg ar 'Rumney' yn nwyrain Caerdydd, 'Tredelerch' yw'r enw Cymraeg cywir ar y lle.

Ond yr enghraifft amlycaf o gyfieithu ar gam yw enw'r ardal sy'n ymestyn o gyffiniau Allensbank Road hyd at Lanisien Fach. Y 'Great Heath' yw enw llawn yr ardal honno yn Saesneg, ond yr enw Cymraeg cywir arni yw, nid y cyfieithiad diweddar 'Y Waun', ond yn hytrach 'Y Mynydd Bychan'. Cofiwch felly mai 'Ysbyty'r Mynydd Bychan' yw Ysbyty'r Brifysgol, ac nid 'Ysbyty'r Waun'.

Rhaid i ninnau'r Cymry ofalu ein bod ni, hefyd, yn gwarchod ein hen enwau brodorol!

E. WYN JAMES

## AGOR YSGOL GYMRAEG NEWYDD

Ar ddydd Mawrth, 7 Medi, agorwyd y seithfed ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd. Roedd 20 o blant bach pedair mlwydd oed o ardaloedd Penylan, Pentwyn, Y Rhâth, Y Sblot, Llanedeyrn, Cathays a Thremorfa yn frwdfrydig i ddechrau yn eu hysgol fach newydd.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol wedi sefydlu ar gampws Canolfan Oedolion Howardian ger Colchester Avenue, Penylan, ond hyderwn y cawn ysgol sefydlog newydd ar gyfer Medi 1994!

Mae tair aelod o staff sef Mrs Jane Buckland, Cynorthwywraig y Dosbarth, Mrs Sian Rolph, athrawes rhan amser, a Miss Susanne Smith, yr athrawes yng ngofal yr ysgol.

Yn anffodus does dim enw ar yr ysgol eto ond bydd hynny yn cael ei benderfynu yn y dyfodol agos.

Prin iawn yw ein hadnoddau ar hyn o bryd ond, gyda chefnogaeth brwd y rhieni a'r staff, mae'r ysgol ar ei thraed. Diolch iddynt, ac i'r ffrindiau am bob cymorth.

'O'r fesen, derwen a dyf'.

---

PARHAD O DUDALEN 4

- **CYWIRIAD** – Yn rhifyn mis Medi gwnaed camgymeriad yn yr enwau yn yr adroddiad bod cangen Y Barri o Ferched y Wawr wedi anfon siec am £100 i Gronfa Nantgwrtheyrn. Elw oedd hyn a wnaed mewn bore coffi yng nghartref **Alcwyn a Llywela Evans, Wenfô.**
- Cynhaliwyd Oedfa Sefydlu y Parchedig Gwilym E. Davies yn weinidog ar Eglwys y Bedyddwyr, Tynewydd, Treherbert ar ddydd Gwener, Medi 17. Ordeiniwyd Gwilym i'r weinidogaeth yn y Tabernacl, Caerdydd ym 1984. Bu yn weinidog ar Eglwys Hengoed a Bryn Seion, Ystrad Mynach ac Eglwys Seion, Cwmaman, Aberdâr. Ers 1986 bu'n weinidog ar Eglwys Undebol Noddfa, Ynysybwl, ac ers hynny hefyd bu'n Ysgrifennydd Ariannol Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Mae Eirian, ei wraig, yn Bennaeth yr Adran Ffiseg yn Ysgol Gyfun y Cymer, Y Rhondda ers 1988.
- Bydd Cangen Merched y Wawr Caerdydd yn mynd i'r Coleg Gwyddor Tŷ yn 66 Park Place i glywed Ann Ladd yn sôn am goginio. Y dyddiad i'w gofio yw nos Lun, Tachwedd 8 a'r amser yw 7.30 o'r gloch. Bydd cyfle, mae'n siwr, i gasglu syniadau newydd ar gyfer paratoi gwleddoedd y Nadolig. Am ragor o wybodaeth am raglen gyflawn y gangen cysyllter a'r ddwy ysgrifenyddes, Rosemary Davies ar Caerdydd 616668, a Mair Latter ar Caerdydd 562527.

# YSGOLION



Côr Plant Ysgol Coed Y Gof

**Y mis hwn Ysgol Coed Y Gof sy'n cyfrannu i'r dudalen hon, ac mae eu cyfraniad yn un diddorol dros ben.**

### HENAINT

Fel derwen yn sefyll fel arfer yn ei chae
Y blynyddoedd wedi gadael marc ar ôl
Y dail yn cwympo fel y cof yn mynd,
Anghofio beth wnaeth heddiw a diwrnod yn ôl.

Cangen fach yn cwympo,
Y goeden nawr yn ffaelu,
Dechrau plygu drosodd
Ac aros yn y gwely.

Y dderwen llawer gwanach
Crac, dyma hi'n torri
A nawr mae eithaf twll ar ôl
Lle roedd derwen gref flynyddoedd yn ôl.

*LISA NASH*

### Y BWLI

Mae fel aderyn ysglyfaethus
Yn cydio mewn anifail bach
Ac yn pigo arno'n ddi-dostur
Nes ei fwyta wedi iddo'i ladd.

Mae fel tylluan yn y nos
Yn gollwng ei grafangau main,
Ar lygoden fechan wan
Ac yn ei fwyta'n ddiymadferth.

Felna mae yn yr ysgol
Ymosoda ar blant bach,
Mae'r bwli fel y dylluan,
Ac fel yr aderyn ysglyfaethus
Ond ei fod yn ymosod mor gas
Ar blant bach diniwed.

*RHIANNON MICHAEL*

### Y DI-GARTREF

Wrth ochr y ffordd, bocsys,
Yn y parc, bocsys,
Yn yr ardd, yn nrws y siop, mae bocsys
A phan fo rhywun yn dweud
'Ewch o ma, mae'r rhain yn hyll'.
Mae'r bocsys yn symyd ymlaen
Dyna i gyd mae'r bocsys yn wneud
Yw symud ymlaen a symud ymlaen.
Ble mae tai newydd y llywodraeth?
Does dim i'w gweld.
Dyw'r llywodraeth ddim yn poeni
Am y bocsys ar y stryd.

*CAITLIN RICHARDS*

### HENAINT

Dim ond atgofion sy'n y cof,
Weithiau'n anghofio
A salwch ofnadwy
Ond eistedd yn dawedog
Wna nain o hyd
Yn cofio am yr amser da
Yn yr hen ddyddie.

Os edrychwn yn fanwl,
Gwelwch hyn yn ei llygaid
Wrth gofio, cofio, cofio.
Weithiau yn cerdded yn grwmp
Yn gwisgo dillad hen ffasiwn
Weithiau yn dweud rhyw
Stori yn ei chadair
Siglo wrth y tân.

*FFION REYNOLDS*

### HENAINT

Cerdded yn araf
Siarad â ffrind
Eistedd wedi blino
Cario ffon
Dim rhedeg mwy
Gwisgo sbectol
A dannedd gosod
Anghofio
Cael trafferth gydag arian
Mae pawb yn mynd yn hen.

*BETHAN DAFYDD*

### HAPUSRWYDD

Mae hapusrwydd yn goch,
Mae'n blasu fel hufen iâ.
Mae'n arogli fel petrol,
Mae'n edrych fel ffrog briodas,
Mae'n swnio fel merch yn canu piano,
Mae'n teimlo fel ffwr y gwningen.

*BETSAN DAFYDD*

# DYSGU CYMRAEG

*dan ofal Mair ac Alun Treharne*

Daeth yr hydref - tymor y dail a'r dosbarthiadau nos. Dyma'r tymor hefyd pan fyddwn yn dechrau meddwl am ambell noson allan yn y theatr neu'r neuadd gyngerdd.

Bydd cyfle i chi gefnogi cwmni theatr lleol yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae Theatr Iolo, cwmni sy'n perfformio mewn ysgolion ac yn y gymuned, yn perfformio drama o'r enw 'Y Dilyw' yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, yn Ne Morgannwg a Gwent. Addasiad Cymraeg o ddrama Charles Way, 'The Flood', yw'r ddrama hon. Mae'n trafod themáu a phynciau pwysig ar sawl lefel, ac yn addas i oedolion a phobl ifanc. Mae Theatr Iolo wedi meddwl am ddysgwyr wrth sgriptio'r ddrama yn Gymraeg ac yn eich gwahodd chi i bedwar perfformiad yn ardal Y DINESYDD. Dyma gefndir y ddrama.

Mae'n fore. Mae Martha wedi bod yn cael yr un freuddwyd ers sawl noson... breuddwyd am aderyn du, aderyn gwyn a chwch yn hwylio ar y môr. Mae Gerallt, ei gŵr, yn dechrau swydd newydd fel 'bos' y cwmni y bore 'ma, ac mae Dafydd a Rebecca, eu plant, yn ffraeo. Mae hi wedi bod yn bwrw glaw yn ddi-baid ers tri diwrnod a thair noson.

Mae 'Y Dilyw' yn adrodd stori Martha a'i theulu wrth iddi hi sylweddoli bod y llifogydd yn mynd i droi yn ddilyw a dinistrio'r byd. Ar y dechrau mae Gerallt yn credu bod Martha wedi colli arni'i hun (having a breakdown), ond er hynny mae'r teulu yn dianc mewn cwch wrth i'r byd i gyd foddi. Ar ôl deugain niwrnod a deugain noson maen nhw'n glanio ar ynys ac yno mae'n rhaid iddyn nhw greu byd newydd a gwerthoedd newydd.

Beth am fanteisio ar y cyfle i fynd i un o'r perfformiadau?

## SUT I FYND ATI I ARCHEBU TOCYNNAU

Dyma ychydig o batrymau defnyddiol:

**1. Archebu tocynnau**

Ga' i archebu tocyn(nau) ar gyfer 'Y Dilyw' os gwelwch yn dda?

Oes modd (Is it possible to) archebu tocyn(nau)...

Dw i'n ffonio i archebu tocyn(nau)...

Oes tocynnau ar gael (available) ar gyfer 'Y Dilyw'?

Oes tocynnau ar ôl (left) ar gyfer 'Y Dilyw'?

**2. Mwy o fanylion**

...y perfformiad

yng Nghanolfan Yr Urdd ar yr ail o Dachwedd

yn y Sefydliad Addysg Uwch ar y degfed o Dachwedd

yn Ysgol San Curig, Y Barri, ar yr unfed ar ddeg o Dachwedd

**3. Sawl tocyn?**

Ga'i un tocyn pris llawn, os gwelwch yn dda?

ddau docyn (full price)

dri thocyn

bedwar tocyn pric gostyngol (reduced price)

bum tocyn

chwe thocyn

**4. Talu**

Ga' i dalu â siec?

Oes modd talu trwy Access/Visa?

Ydi hi'n bosibl talu dros y ffôn?

**5. Gostyngiadau (Reductions)**

Oes gostyngiadau ar gyfer plant/myfyrwyr/pensiwynyr/y di-waith (the unemployed) yr anabl (the disabled)?

**6. Y perfformiad (Performance)**

Ydy'r ddrama'n addas (suitable) ar gyfer plant/grwpiau ysgol?

Beth ydy hyd (duration) y perfformiad?

Fydd egwyl (intermission) yn ystod y perfformiad?

**7. Cyfleusterau (Facilities)**

Oes cyfleusterau ar gyfer pobl mewn cadair olwyn (wheelchair)?

Oes cyfleusterau parcio yno?

Nos Iau, 2 Tachwedd, 7.30pm

Canolfan Yr Urdd
Heol Conwy
Treganna
Caerdydd
Ffon: Theatr Iolo (0222) 613782

Nos Fercher, 10 Tachwedd, 7.30pm

Sefydliad Addysg Uwch
Ffordd Cyncoed
Caerdydd
Ffôn: Theatr Iolo (0222) 613782

Nos Iau, 11 Tachwedd, 7.30pm

Ysgol San Curig
Heol Y Coleg
Y Barri
Ffôn: Theatr Iolo (0222) 613782

Pris tocynnau ar gyfer pob perfformiad£1 i oedolion

50c gostyngiadau (reductions)



### HAPUSRWYDD

Mae hapusrwydd yn lliwgar,
Mae'n blasu fel diod oer ar ddiwrnod twym,
Mae'n arogli fel blodau'r haf,
Ac yn edrych fel rhosyn coch,
Mae'n swnio fel nant yn sisial
Ac yn teimlo fel gwres yn y gaeaf.

*RHIANNON MICHAEL*

### OFN

Mae ofn yn las, yn lliw oer,
Mae'n blasu fel spagetti oer,
Mae'n arogli fel mŵg yng nghanol y dre,
Mae'n swnio fel sgrech,
Ac mae'n teimlo fel pigiad.

*ELEN MEREDITH*

### OFN

Mae ofn yn ddu
Mae'n blasu fel lemwn
Mae'n arogli fel creadur sy wedi marw
Mae'n edrych fel twnel du
Mae'n swnio fel sŵn traed
Mae'n teimlo'n oer.

*DANIEL CHUBB*

### OFN

Mae ofn yn llwyd,
Mae'n blasu fel llaeth wedi suro,
Mae'n arogli fel pawb yn ysmygu,
Mae'n edrych fel cysgodion ar y wal,
Mae'n swnio fel troed yn cerdded tu ôl i ti,
Mae'n teimlo fel bod neb yn y tŷ
Ond ti a'r ysbrydion.

*BETHAN SULLIVAN*

### OFN

Mae ofn yn wyn,
Mae'n blasu fel dŵr oer,
Mae'n arogli fel sosban ar dân,
Mae'n edrych fel ysbryd,
Mae'n swnio fel trobwll,
Mae'n teimlo fel mil o flociau iâ
Yn cael eu
taflu lawr fy nghefn.

*HUW EDWARDS*

NODYN OPERATIG

# FALSTAFF

## Bryn Terfel ar ei orau

Pan berfformiwyd y cynhyrchiad hwn o 'Falstaff' yng Nghaerdydd fis Medi 1988 roedd yn gwbl ysgubol. Erbyn iddo ddychwelyd i'r brifddinas eleni roedd yn fwy disglair fyth.

Donald Maxwell fel Falstaff yw canolbwynt yr opera, wrth gwrs, ac roedd ei berfformiad (y canu a'r actio) yn hyderus ac yn argyhoeddi'n llwyr. Y tro hwn Bryn Terfel oedd Ford - ei bresenoldeb ar y llwyfan a'i rym lleisiol yn mynnu sylw'r gynulleidfa o'r foment gyntaf. Mater o falchder i ni fel cenedl yw gweld Bryn Terfel yn tyfu ac yn aeddfedu fel canwr ac fel actor.

Roedd y menywod yn ddi-wahân yn taro deuddeg - Suzanne Murphy fel Alice Ford, Wendy Verco fel Meg Page a Claire Powell fel Mistress Quickly. Roedden nhw'n perfformio fel petaen nhw wedi bod yn ffrindiau mynwesol ers bore oes. Ac yn y perfformiad hwn y sylweddolais i am y tro cyntaf bod modd gweld 'Falstaff' fel opera i ffeministiaid. Y menywod sy'n rheoli'r dynion yn gadarn iawn a'r cryfder sy'n deillio o'r cyfeillgarwch rhyngddyn nhw yn eu galluogi i drechu'r gŵyr.

Comedi yw 'Falstaff', wrth gwrs, ac roedd elfennau doniol tu hwnt yn yr opera - yn enwedig yn ystod diwedd Act 1 pan mae'r merched yn cuddio Falstaff yn y fasged dillad brwnt rhag i Ford ddod o hyd iddo. Ar ddiwedd yr act, caiff Falstaff ei daflu'n ddi-seremoni o'r fasged trwy'r ffenest i'r ardd y tu fas.

Mae diwedd yr opera yn afaelgar tu hwnt, yn dynnach a felly'n rhagori ar y cynhyrchiad welwyd gyntaf yng Nghaerdydd ym 1988. Mae gweld Falstaff dew yn ei siwt goch lachar yn cael ei godi i'r awyr uwchben y dorf yn dod â gwên i bob aelod o'r gynulleidfa.

Mae hwn yn gynhyrchiad ardderchog gan Peter Stein - un o'r cewri cyfoes sy'n profi, yn wahanol i gynifer o gynhyrchwyr opera, fod ganddo fwy nag un syniad yn ei ben. Stein hefyd oedd cynhyrchydd perfformiad ysgubol arall gan Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar, 'Pelleas et Melisande'.

Roedd cerddorfa'r Cwmni Opera o dan arweiniad Richard Armstrong gystal ag erioed.

Chefais i ddim byd i gwyno amdano yn 'Falstaff' - roedd y cwbwl yn wych. Rwyf eisoes wedi trefnu i fynd i'w weld eto cyn diwedd y mis, ac rwy'n annog pawb arall i wneud yr un fath.

**MENNA RICHARDS**

# HOLI'R SÊR

## yng nghwmni EIRY PALFREY



**Enw:** Sue Roderick
**Dyddiad geni:** Hydref 2, 1955 (Libra)
**Amser geni:** Ychydig wedi hanner nos
**Man geni:** (tref agosaf): Bangor
**Diddiad geni eich cymar:** Rhagfyr 3 (Capricorn)
**Hoff liw:** Glas a du
**Hoff flodyn:** Gladioli
**Sut y byddwch chi'n treulio'ch oriau hamdden?** Yn coginio
**Ble a phryd rych chi hapusaf?** Ar fy mhen fy hun yn y gegin adref
**Pa gar sydd gyda chi, a pha liw yw e?** Golf VW glas
**Pa gar hoffech chi ei gael?** Porche du
**Beth yw eich hoff fwyd?** Cyri
**Ble rych chi'n hoffi mynd am wyliau, a pham?** I Sbaen am y tywydd a'r bwyd
**Pwy yw eich hoff berfformiwr?** Robert de Niro
**Pwy yw eich hoff awdur?** Steven King
**Beth/neu bwy sy'n mynd ar eich nerfau?** Lle anhaclus a phobl flêr
**Beth yw eich cryfder mwyaf?** Gallaf weld y ddwy ochr i bob dadl
**Beth yw eich hoff anifail?** Mwnci
**Pe cawsech chi'r dewis ym mha wlad hoffech chi fyw?** Yr Iwerddon
**Beth sy'n eich gwneud i chwerthin?** Ffilmiau Bob Hope
**Beth sy'n eich gyrru o'ch co?** Bod yn styc mewn tagfa draffig

### BARN YR ASTROLEGYDD

Ganwyd Sue dan arwydd LIBRA (Medi 23-Hydref 22). Mae Libraid yn gyfaddawdwyr ac yn gwneud diplomatyddion ardderchog gan eu bod, fel Sue, yn gweld y ddwy ochr i bob dadl. Mae heddwch a harmoni yn bwysig iddyn nhw, ac fe ant yn bell i'w cadw. Mae Gwener - planed serch a harddwch - yn eu rheoli. Dim rhyfedd felly mai blodyn dramatig o hardd fel y gladioli yw hoff flodyn Sue. Mae cariad yn holl bwysig iddynt a boneddigrwydd - a destlusrwydd. Mae Libraid yn fwy nag un arwydd arall yn bobl hardd, golygus. Maen nhw'n bobl hynaws, yn mwynhau cwmni a chymdeithasu, yn gwmni da ac yn boblogaidd. Maen nhw'n hapusach mewn partneriaeth. Fel rheol byddant yn priodi'n ifanc (yn aml gyda Libra arall), ac yn aml yn priodi mwy nag unwaith. Mae llawer ohonynt yn gerddorol iawn, fel Sue. Mae ganddynt feddwl agored a maen nhw'n rhai gwych am gymodi mewn ffrae. Serch hynny mae wynebu'r gwirionedd yn eu poeni, ac mi fyddant weithiau'n dweud celwydd i osgoi brifo rhywun. A maen nhw'n ei chael hi'n anodd i wneud penderfyniad - fel y glorian, byddant yn pwyso a mesur hyd dragwyddoldeb cyn penderfynu!

Pan aned Sue roedd yr arwydd CANCER yn codi, a dyna'r wyneb mae hi'n ei ddangos i'r byd. Dim rhyfedd, felly, ei bod yn mwynhau coginio, a chael y gegin iddi hi ei hunan oherwydd gwraig Cancer yn anad neb yw brenhines y gegin, ac mi fydd wrth ei bodd yn gofalu am eraill a'u tendio. Mae Cancer yn arwydd swil, ac yn gyndyn i ddangos ei hunan a dyna pam mae'r lliw du yn denu, lliw i guddio y tu ôl iddo, er mai gwir liwiau Libra yw glas (fel yn achos Sue) a phinc.

# YR EGLWYS NEWYDD


- Llongyfarchiadau i Stephen Rhys Williams, mab Megan a'r diweddar Rhys Haydn Williams, ar ei briodas â Helen Arkontopoulos, Sain Nicolas. Maent wedi ymgartrefu yn Rhiwbeina.
- Croeso i Owain, mab Wyn a Christine James, a brawd bach newydd i Eleri ac Emyr.
- Bu farw Muriel Evans, Lôn-y-celyn, yn 85 oed. Un o Ddowlais oedd Mrs Evans yn wreiddiol, ond fel llawer un arall, symudodd hi a'i diweddar ŵr, Elwy, i lawr y cwm wedi i gynhyrchu dur gael ei drosglwyddo ym mlynyddoedd y Dirwasgiad o waith dur Guest, Keen & Nettlefolds yn Nowlais i'w gwaith dur ger dociau Caerdydd.

Trwy amryfusedd collwyd enwau rhai o enillwyr y gystadleuaeth wisg ffansi yn Ffair Haf Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd o'r adroddiad yn rhifyn diwethaf Y DINESYDD. Yr enillwyr oedd Tomos Nolan a Mati Angharad yn Adran y Babanod, a Jamie Donovan, Elin Burns a Rhian Edwards yn yr Adran Iau.

- Mae Swyddfa Bost yr Eglwys Newydd wedi dechrau gwerthu cardiau yn ddiweddar, a da gweld fod detholiad bach o gardiau Cymraeg yn eu plith.
- Llongyfarchiadau i Wyn a Kathryn Innes, Llundain, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Tomos James Wyn, ac ŵyr i Anne Innes, yr Eglwys Newydd.

LYNN JONES
Aelod o FIMBRA
Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau
30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

# Y CROESAIR - AP LEWSYN RHIF 133



*AR DRAWS*

1 Nid tywod mân, ond gro (6)
4 Ffrwyth, medd y Sais, sy'n nodweddu gweriniaethau anaeddfed (6)
9 Hawl dyn yr ym oll yn ei gadw mewn trefn rhag iddo fynd dros ben y llestri (4,3,2,6)
10 Twll? (6)
11 Llanw'n ormodol bron, i gyfeiriad y machlud (8)
12 Gwastraffus fel y mab a aeth i'r wlad bell (8)
14 Diwallu yn gyffredin, ond coginio cig i ferched y De (6)
15 Lle i hadau ddangos gostyngiad amlwg (6)
18 Person unigryw mewn drama (8)
21 Cymeraf gadair a etifeddais, a'i thrwsio wedi colli un rhan ohoni (8)
22 Yr adfeiliad a ysgrifennodd T.R.H. amdano (6)
24 Aeth pentwr i bwrs 'i feistr am drefnu cyfnod o hyfforddiant iddo (4,11)
25 Nid yw'n haeddu, nac yn cael, ystyriaeth (6)
26 Aml i frycheuyn (6)

I LAWR

1 Camgymeriad y gweithiwr haearn yn ei yrru'n orffwyll (7)
2 Treisiad a welwyd yn rhedeg allan o'r ydlan nerth ei thraed (5)
3 Tro'r naill yn dilyn tro'r llall yn rheolaidd (2,2,3)
5 Yr adeg honno (2,1,4)
6 Emyn a gardd yn creu awyrgylch hirymarhous (9)
7 Capeli'r enwad? (7)
8 Un rhan o gyfanwaith i'r côr (6)
13 Unochrog? (9)
16 Trechwyd a chafwyd cyflog (7)
17 Lordiodd hi yn fywiog ac yn ddiddan (7)
18 Diwedd eich llofnod (6)
19 Cewch eich gwarantu ganddo (7)
20 Aeth yn frau yn fy nwylo, er i mi fwriadu'n wahanol (7)
23 Bydd hwn ymhlith y cyntaf i achub y rhai sâl (5)

## DATRYSIAD 132



## CYSTADLEUAETH RHIF 132

Er byrred yr amser a gafodd y datryswyr i orffen eu hymgeisiadau ym mis Medi, daeth wyth ymgais i law, a saith ohonynt yn gywir. Ymddiheuraf iddynt os bu i wall yr argraffydd yn gosod Pentrefoelas ar Heol A4 yn lle ar A5 beri anhawster iddynt. Yr enw a dynnwyd oedd eiddo Carys Humphreys, 1, Bodlondeb, Bangor, Gwynedd. Yr oedd y rhai canlynol hefyd yn gywir: Sylvia Evans, Cathays; Huana Simpson, Y Bontfaen; Marged Davies, Llandaf; Gwenda Hopkins, Llanisien; John G. Breese, Glanyrafon a Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd.

## CYSTADLEUAETH RHIF 133

Tocyn Llyfr £5 eto. Pob ymgais i gyrraedd ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed erbyn Tachwedd 1 gydag enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair, os gwelwch yn dda.

# AR GLAWR

## BYWGRAFFIAD LLENYDDOL CYNHWYSFAWR

CYFRES DAWN DWEUD
W. J. GRUFFYDD
*gan T. Robin Chapman*
288 tt. £12.95
Gwasg Prifysgol Cymru

Cafodd y llyfr hwn gryn sylw eisoes, yn bennaf oherwydd yr hanes sydd ynddo am y garwriaeth hir rhwng Gruffydd, a oedd ar y pryd yn briod, a Mary Davies, un o Arolygwyr Ei Fawrhydi. I'r sawl sydd â'u bryd ar ddarllen am droeon o'r fath, y mae un bennod hir feistraidd, a llawn ddigonol hefyd, ar eu cyfer. Dyma'r unig bennod gwbl fywgraffyddol a geir yn y gyfrol, a dweud y gwir.

Dilyn hynt a helynt a theithi bywyd Gruffydd a wna'r pedair pennod ar ddeg arall hefyd, eithr cyplysir ynddynt bob sôn am bobl a digwyddiadau a datblygiad llenyddol neu feddyliol y gwrthrych. Bywgraffiad llenyddol yw'r gyfrol hon, a rhaid cofio hynny. Ac fel bywgraffiad llenyddol, y mae'n llwyddo'n deg: y mae'n ddiddorol, yn hawdd i'w ddarllen, yn goeth ei arddull, yn dreiddgar ei syniadaeth a'i dadansoddiadau ac, ar y cyfan, yn gynhwysfawr o ran cynnwys. Gellid bod wedi gofyn efallai am fwy o sylw ar ddyddiau cynnar Gruffydd, ac am fwy o drafod ar ei berthynas â'i wraig. Ond mân frychau yw'r rhain; rhoes Robin Chapman inni gampwaith o'i fath yn ddiamau.

Neges glir a diamwys y tipyn adolygiad hwn, felly, yw ichi brynu a darllen y llyfr ar bob cyfrif. Cewch ynddo olwg hir ar amryddawn ddoniau llenyddol a blas ar gymeriad rhyfedd a chymhleth un o brif feddylwyr cenedlaethol y ganrif hon. Dyma'r cymhlethdod rhyfedd a grynhowyd gan Williams Parry pan alwodd Gruffydd 'yn llawn o ryfel ac yn llyn o ras'.

Cofiwch hefyd i Gruffydd fyw yn ardal Caerdydd - neu 'drigo' yno, chwedl yntau yn ei ffordd fachog - am dros hanner ei fywyd. Ac yma yng Nghaerdydd a'r cyffiniau yr ysgrifennodd y rhan fwyaf o'i gynnyrch llenyddol, a'r cyfan bron o'i sylwadau treiddgar ar faterion gwleidyddol a chymdeithasol.

Ym 1991 ail-gyhoeddwyd rhai o ysgrifau beirniadol pwysicaf Gruffydd a detholiad o'i gerddi mewn dau lyfr, dan olygyddiaeth Bobi Jones. Tan hynny aethai athrylith y dyn hynod hwn bron yn angof. Aethai ei farddoniaeth ac, yn fwy byth, ei weledigaeth yn hynod anffasiynol. Ac er ein bod yn dal yn llawer rhy gaeth i ffasiwn yr oes, da yw nodi yn achos Gruffydd fod y rhod yn dechrau troi o'i blaid unwaith yn rhagor. A mawr yw ein diolch i Robin Chapman am ei gyfraniad ef i geisio uniawnu'r cam a wnaed â Gruffydd ar ôl ei farw drwy roi inni'r astudiaeth wych a darllenadwy hon o'i fywyd llenyddol.

GWYN JONES

# Y CAMPAU

dan ofal Thomas Davies

## CRICED

Rhaid llongyfarch Gwlad Morgan ar ennill Pencampwriaeth y Sul yng Nghaergaint. Dyna'r lle i'w hennill - yng Ngardd Lloegr yng ngolwg Prif Eglwys Gadeiriol y wlad.

## Y BÊL GRON

Does dim dwywaith mai Caerdydd yw'r lle i fod y dyddiau hyn os pêl droed yw eich camp.

Ar brynhawn Sadwrn fe allwch chi fynd i Barc Ninian ac ar yr un penwythnos gwylio Caerdydd yn ail adran Cynghrair Lloegr, ac ar y penwythnos canlynol ar yr un maes gwylio clwb Inter Caerdydd yng Nghyngrair Konica.

Yn ogystal â hynny, deirgwaith yn y tri mis rhwng Medi a Thachwedd, mae tîm Cymru wedi chwarae yng nghystadleuaeth rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd. Ac mae hynny yn rhoi cyfle i bawb gael gweld Ryan Giggs - heb os, y chwaraewr mwyaf cyffrous a thalentog nid yn unig yma yng Nghymru ond ym Mhrydain.

Rick Wright yw'r cyswllt rhwng Caerdydd ac Inter Caerdydd. Ei freuddwyd o yw gweld y ddau glwb yn y diwedd yn chwarae yn y Konica - yn datblygu yn rhyw fath o Glasgow Rangers yma yng Nghymru, yn gyson yn ennill y bencampwriaeth ac yn chwarae yn Ewrop. Drwy hynny mi ddaw mwy o arian i goffrau'r clybiau fydd yn eu galluogi i gryfhau, i godi eu safon a thrwy hynny, efallai, datblygu Ryan Giggs y dyfodol yma yng Nghymru'n hytrach na dibynnu ar Loegr.

*Ian Gwyn Hughes*

## Y BÊL HIRGRON


Dechreuad campus a gafodd Caerdydd yn Adran 1 y tymor hwn: curo Aberafan gartref, a Phontypridd a Threcelyn oddi cartref yn yr wyth niwrnod cyntaf, a sgorio 119 o bwyntiau a 15 cais yn y tair gornest. Ar ôl yr wythnos gyntaf honno, ysywaeth, yr oedd hi'n hollol amlwg mai rhwng Caerdydd, Abertawe, Castellnedd, Llanelli - (pencampwyr 1993) a Phontypridd efallai, y byddai hi'r tymor hwn. Trueni mawr y bydd saith arall yn brwydro'n unig i osgoi disgyn.

## CLWB PÊL DROED CYNRADD YR URDD

O hyn ymlaen bydd Clwb Pêl Droed Cynradd yr Urdd yn cyfarfod bob bore Sadwrn am 10 o'r gloch tu allan i Ganolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna ac yn ymarfer yng Nghaeau Llandaf. Yn ôl Sian Jobbins, Swyddog Datblygu De Morgannwg, maent yn edrych am gefnogaeth bechgyn a merched 7 oed i fyny i ymuno â'r Clwb.

Yn ogystal ag ymarfer sgiliau Pêl Droed, byddant yn cynnal gêmau yn erbyn timau Pêl Droed lleol bob hyn a hyn. Codi'r tal o 75 ceiniog y sesiwn ar bob plentyn.

NEWYDDION




# Y FRWYDR FAWR

**Un o ddigwyddiadau cyffrous y byd chwaraeon ddechrau'r mis yma oedd yr ymrysonfa focsio rhwng Frank Bruno a Lennox Lewis a gynhaliwyd yma ar y Maes Cenedlaethol. Yn y dorf y noson honno roedd MARY JONES. Dyma ei stori hi.**

Fe fyddai unrhyw un call yn ei wely am un o'r gloch ar fore Sadwrn, ond roeddwn wedi penderfynu mynd i Barc yr Arfau i weld y 'Battle of Britain'.

Roedd hi'n noson deg, er gwaethaf yr holl law yn gynharach. Tua deg o'r gloch aethon ni a doedd hi ddim yn anghyffyrddus o oer o gwbl. Roedd rhai o'r gornestau ymlaen llaw yn ddiddorol hefyd, yn enwedig honno rhwng Haddock a Williams: dau focsiwr crefftus yn hytrach nag ymladdwyr.

Rown i wedi sylwi ar y ffordd i'r maes ar lawer o acenion Cockney a phobol Canolbarth Lloegr. Ond roedd yna ambell grŵp o ddynion - a merched - o'r Cymoedd hefyd. Allwn i ddim llai na sylwi ar y dyn ddaeth i eistedd ar fy mhwys i, dyn cymharol ifanc, trwsiadus, gwallt gweddol fyr a bag dillad dros nos, mae'n amlwg. Fe aeth i gysgu chwap fach, ond tua hanner awr wedi deuddeg dyma fe'n dihuno a gofyn i fi'n fonheddig reit faint o'r gloch oedd hi. Fe dynnodd oren allan o'i fag a dechrau bwyta - nid can cwrw, sylwch.

Erbyn hyn, roedd yr MC yn y cylch mewn cot â chwt a'r gweiddi a'r bloeddio a'r herio wedi dechrau o ddifri. Roedd hi'n amlwg mai Bruno oedd y ffefryn, ac roedd yr oren wedi cyflawni gwyrthiau ar y cymydog, waeth roedd e'n bloeddio sloganau nerth ei ben ac yn dyrnu'r awyr yn wyllt.

Mae pawb yn gwybod erbyn hyn beth oedd canlyniad yr ymryson, a dyna pryd ddechreuais i sylweddoli pwy allai rhai o'r unigolion ifanc yma fod. Roedd yna un crwt ifanc, er enghraifft, a'i ben wedi eillio, modrwy yn ei glust a dillad lleder wedi colli'i ben yn lan. Welais i ddim byd tebycach i hwligan pêl droed erioed pan ddaeth y dyfarniad. Roedd e'n bwriadu pigo cynnen gydag unrhyw un a agorai ei geg wrtho, ac fe geisiodd bryfocio un o'r stiwardiaid gerllaw. Duw a ŵyr faint o helynt achosodd e cyn mynd adre i ble bynnag ddaeth e ohono.

Fe sylweddolais wedyn pam roedd y teimlad yma mor rhyfedd. Ar Barc yr Arfau mae mopio ar ganlyniad yn gyffredin iawn, wedi'r cyfan. Ond roedd y bois yma ormod o ddifri i fi: roedd rhywbeth tebyg i gasineb yn eu hymateb nhw.

Oedd, roedd hi'n noson wahanol a dymunol, ond dwy i ddim yn meddwl yr hoffwn i gwrdd â rhai o'r bobol yma ar eu tir eu hunain yn Lloegr. Dydan ni ddim yn gyfarwydd â'r math yna o genedlaetholdeb ar Barc yr Arfau.

# LLYFRAU NEWYDD

**RHYS LEWIS** *gan Daniel Owen*
Argraffiad newydd gyda rhagymadrodd gan E.G. Millward **£9.95**

**Y FUWCH A'I CHYNFFON** *gan Harri Gwynn*
Argraffiad newydd gyda rhagymadrodd gan Gwyn ap Gwilym **£4.50**

**GWEN TOMAS** *gan Daniel Owen*
Argraffiad newydd gyda rhagymadrodd gan E.G. Millward **£6.95**

Allan Yn Fuan...
**STORIAU** *gan Richard Hughes Williams*
Argraffiad newydd **£4.50**

Hughes a'i Fab,
Parc Tŷ Glas, Llanishen,
Caerdydd CF4 5DU
Ffôn: 0222 747444/810024

**HUGHES**

# Ewyllys da...


Gyda "Wythnos Gwneud Ewyllys" wrth law, mae'r ffaith mai dim ond un allan o bob tri oedolyn sydd wedi gwneud ewyllys o dan sylw unwaith eto. Yn Hugh James rydyn ni wedi troi'r dasg o wneud ewyllys yn un gyflym, rhad ac effeithlon. Fel rhan o'r gwasanaeth rydyn ni'n rhoi cyngor ar gynllunio sut i achub ar Dreth Etifeddiaeth.

# ... ewyllys Gymraeg

Ac, wrth gwrs, fel un o gwmnïau Cymraeg mwyaf disglair yr ardal, gallwn ni ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y Gymraeg. Peidiwch ag oedi. Mae angen "ewyllys da" ar bawb.

**Cysylltwch â Ceri Preece**
**Hugh James Jones a Jenkins**
**Tŷ Arlbee, Heol y Brodyr Llwydion**
**Caerdydd CF1 4QB**
**Ffôn 0222/224871**

Hugh James
Jones & Jenkins
SOLICITORS · CYFREITHWYR




**Llyfr Smot a Fi**
**£3.00**
Llyfr i'w gadw a'i drysori, llyfr am blentyn bach yn tyfu i fyny gyda Smot.





**Smot yn Mynd i'r Coed**
**£4.25**
Yn y stori Smot hon mae mwy o labedau nag erioed!

**Cloc Jig-so Cyntaf Smot**
Yn y siopau erbyn dechrau mis Rhagfyr.




**Llyfr Nadolig Llawen**
addas. Brenda Wyn Jones
**£2.50**
Mae'r llyfr hwyliog yma'n llawn o bethau i'w gwneud yn y dyddiau sy'n arwain at y Nadolig.




**Llew a'r Llygod Llydewig**
Pat Gibson
addas.
Gwyn Griffiths
**£3.50**
Pan aeth Llewelyn Llygoden i fusnesu tu mewn i hen gadair yn seler Mr Thomas Defis cafodd dipyn o sioc . . .

GOMER
**LLANDYSUL, DYFED, SA44 4BQ**
**Ffôn: 0559 362371 Facs: 0559 363758**

## Cwmni Theatr Gwynedd

*yn cyflwyno*
***John Pierce Jones Mei Jones***
***Bryn Fôn Llion Williams ac eraill***




*Theatr y Sherman, Caerdydd*
*Mawrth-Sadwrn 9-13*
*Tachwedd 7.30 y.h.*

Swyddfa Docynnau: Caerdydd (0222) 230451